



Adnoddau Sgwad Safio Dylan  
Canllaw i athrawon

Cyflwynwyd gan:





# Diweddariad ar addysg ariannol Principality

## Annwyl Bennaeth.

Yng Nghymdeithas Adeiladu Principality, rydym yn angerddol ynghylch cynilo ac yn benderfynol o ddarparu'r hyn sydd ei angen ar gymunedau i'w helpu i fod yn gynilwyr brwd. Pwyslais allweddol yn ein hymdrechion yw darparu'r sgiliau ariannol y bydd eu hangen ar bobl ifanc ledled Cymru i'w paratoi ar gyfer bywyd oedolyn ac rydym yn awyddus i rannu rhai o'n gweithgareddau diweddaraf â chi.

O ganlyniad i'n hymrwymiad parhaus, rydym wedi cyffroi ynghylch lansio Sgwad Safio Dylan - microwefan o weithgareddau dysgu a deunyddiau dysgu teuluol, ynghyd â'r ap cysylltiedig i ffonau symudol, Cuddfan Dylan.

Rydym ni hefyd wedi creu cynhyrchion cynilo deniadol a dynamig fel ein cyfrif Dysgu Cynilo i gyflwyno teuluoedd i fuddion cynilo.

Rydym yn ymwybodol iawn o'r rhan yr ydych chi a'ch cydweithwyr yn ei chwarae wrth helpu i ddatblygu dealltwriaeth plentyn o faterion arian. Dyma pam yr ydym ni wedi lansio hwb athrawon ar-lein hefyd, sy'n rhan newydd sbon o Sgwad Safio Dylan. Yma cewch chi adnoddau a gweithgareddau newydd a diddorol wedi'u seilio ar gyllid. Maen nhw wedi'u creu i gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru newydd sy'n esblygu (ceir manylion hyn yn y canllaw canlynol). Mae'r rhain wedi'u creu yn y Gymraeg a'r Saesneg i sicrhau y gall disgyblion ym mhob ysgol ddefnyddio'r adnoddau yn eu dewis o iaith, neu eu defnyddio i helpu i ddysgu iaith ychwanegol.



Dim ond rhai o'r ffyrdd arloesol yr ydym yn eu defnyddio i annog ein Haelodau a'u teuluoedd i archwilio egwyddorion cynilo o gysur eu cartref yw hyn.

Rydym yn gobeithio eich bod yn mwynhau defnyddio'r deunyddiau newydd a chyffrous hyn a byddem yn dwlu ar glywed eich sylwadau ynghylch sut maen nhw'n gweithio i chi er mwyn ein helpu i barhau i greu ac ychwanegu rhagor o adnoddau yn y dyfodol.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Julie-Ann Haines  
**Prif Swyddog Gweithredol**

Cyflwynwyd gan:

# Cynnwys

## 3 Ein rhaglen addysg ariannol

- 3 1. Sgaffaldwaith
- 3 2. Cyllid
- 4 3. Esblygol/ymatebol
- 4 4. Trawsgwricwlaidd
- 4 5. Yn annog ymgysylltiad
- 4 6. Dysgu gwahaniaethol
- 5 7. Sgiliau meddwl lefel uwch
- 5 8. Y Cwricwlwm i Gymru newydd

## 5 Strwythur y rhaglen

- 6 Straeon
- 6 Cynlluniau gweithgareddau dysgu
- 6 Geirfa
- 6 Prosiectau

## 7 Llywio'r wefan

- 7 Categoriâu golwg gyflym
- 7 Oedran
- 7 Lleoliad
- 7 Lefelau adnoddau
- 7 Datblygiadau yn y dyfodol

## 8 Trosolwg o adnoddau

## 17 Y Pedwar Diben

- 17 Lefel 1: 5-7 oed
- 18 Lefel 2: 7-9 oed
- 20 Lefel 3: 9-11 oed

---

Cyflwynwyd gan:



# Canllaw i athrawon

## Ein rhaglen addysg ariannol

Mae wedi bod yn hanfodol i'r rhaglen hon, o'r cychwyn, ei bod yn mynd i'r afael ag anghenion athrawon ac yn ceisio ymgysylltu â dysgwyr yn llawn. I gyflawni hyn, rydym wedi nodi rhai elfennau allweddol ar gyfer y rhaglen:

- Gweithgareddau dysgu difyr, dysgu drwy brofiad, cyd-destunol a chreadigol.
- Straeon sy'n rhedeg trwy'r rhaglen gyfan, fel cyfrwng dulliau addysgu, i gyflwyno'r cysyniadau, dangos gwerth addysg ariannol a chynnig esiampl o agweddau ac ymddygiadau dysgu da.
- Rhestrau geirfa ar gyfer pob lefel, gyda diffiniadau, enghreifftiau ac awgrymiadau i archwilio'r eirfa yn y dosbarth.
- Prosiectau menter ar bob lefel, i roi'r sgiliau a'r cysyniadau mewn cyd-destun ymarferol.
- Yr holl adnoddau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Fe wnaethom gysylltu ag athrawon i ddarganfod yr hyn sydd ei angen a'i eisiau arnyn nhw i gefnogi addysg ariannol eu dysgwyr. Cawsom 7 ateb eglur gennych:

1. Sgaffaldwaith yn hytrach na thaflenni gwaith
2. Hyblyg
3. Esblygol/ymatebol
4. Trawsgwricwlaidd
5. Yn annog ymgysylltiad
6. Addas ar gyfer gwahanol ddulliau dysgu, ac felly'n cefnogi dysgu gwahaniaethol
7. Wedi'i gynllunio i hybu sgiliau meddwl lefel uwch gan gynnwys metawybyddiaeth
8. Yn cyd-fynd â'r disgwyliadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru newydd

### 1. Sgaffaldwaith

Rydym yn cydnabod y gwahaniaeth pwysig rhwng taflenni gwaith a sgaffaldwaith. Fel y cyfryw, rydym wedi darparu templedi a fformatau i helpu dysgwyr i gyfathrebu a gwerthuso eu dealltwriaeth, gan gefnogi asesu ffurfiannol. Yn hytrach na chreu mwy o'r math o adnoddau sydd ar gael yn barod, rydym wedi canolbwyntio ar greu cynlluniau gweithgareddau dysgu. Gellir defnyddio'r cynlluniau hyn fel y maen nhw wedi'u hysgrifennu, eu haddasu i'r dysgwyr unigol, neu eu defnyddio fel ysbrydoliaeth yn unig ar gyfer gwersi creadigol, corfforol neu wedi'u strwythuro ar ffurf gemau.

### 2. Cyllid

Dyluniwyd y rhaglen gan gydnabod bod pob ysgol yn wahanol. Gellir dilyn y rhaglen yn ei chyfanrwydd, gan gynnig taith ystyriol i'r dysgwr, neu gellir ei ystyried fel casgliad o adnoddau y gellir eu defnyddio yn unigol, i ategu eich darpariaeth addysg ariannol bresennol.

Mae'r gweithgareddau dysgu yn cynnig syniadau ac adnoddau i athrawon archwilio cysyniadau a themâu gwerthfawr addysg ariannol. Bwriedir i athrawon allu defnyddio'r gweithgareddau hyn fel ysbrydoliaeth a/neu strwythur ar gyfer eu haddysg ariannol, gan addasu a diwygio er budd eu dysgwyr. Gwneir

Cyflwynwyd gan:



# Canllaw i athrawon

awgrymiadau hefyd yn y cynlluniau gweithgareddau dysgu i wahaniaethu'r gweithgareddau dysgu, neu i ymhelaethu ar y cysyniadau a'r syniadau.

Wrth ddefnyddio'r gweithgareddau yn unigol, efallai y bydd gweithgareddau dysgu priodol yn y lefelau nad ydyn nhw'n lefel eich grŵp blwyddyn hefyd, gyda mân addasiadau. Wrth ddilyn y rhaglen gyfan fel sail eich strwythur addysg ariannol, gall ysgolion ddewis amseriad priodol y rhaglen, er enghraifft, fel cyfnod astudio dwys mewn un tymor neu yn raddol dros y cyfnod llawn o ddwy flynedd.

## 3. Esblygol/ymatebol

Mae lansiad ein Hwb Athrawon a'n rhaglen addysg ariannol yn cynrychioli ein nod o ymestyn ein hymrwymiad i gefnogi ein cymunedau, a hybu agweddau ac ymddygiadau cyfrifol o ran arian. Mae'r ymrwymiad hwn yn parhau, gyda'r bwriad o barhau i ehangu ac esblygu ein hadnoddau yn y dyfodol. Rydym yn gobeithio derbyn adborth cadarnhaol ac adeiladol gan athrawon ar sut y gallwn wella a datblygu'r Hwb Athrawon. Bydd yr adborth hwn yn llywio ein penderfyniadau ar gyfer dyfodol y rhaglen, gan roi i athrawon a dysgwyr yr hyn sydd ei angen a'i eisiau arnyn nhw o'u hadnoddau addysg ariannol.

## 4. Trawsgwricwlaidd

Rydym yn cydnabod manteision gwych dysgu trawsgwricwlaidd a'i werth yn y Cwricwlwm i Gymru newydd. Fel y cyfryw, manteisiwyd ar gyfleoedd priodol i archwilio meysydd dysgu eraill o fewn y cwricwlwm, yn enwedig lle ceir mantais eglur o wella ymgysylltiad dysgwyr ac annog sgiliau meddwl yn feiriadol.

## 5. Yn annog ymgysylltiad

Un o elfennau allweddol y rhaglen yn ei chyfanrwydd yw sefydlu ymgysylltiad fel deiliant blaenoriaeth. Mabwysiadwyd sawl techneg a dull i hybu ymgysylltiad dysgwyr:

- Gweithgareddau creadigol sy'n ysbrydoli dysgwyr i ddod o hyd i lwybrau unigol drwy'r dysgu.
- Gweithgareddau cyd-destunol sy'n dangos i ddysgwyr werth yr wybodaeth a'r sgiliau.
- Gweithgareddau corfforol sy'n annog dysgwyr i fod yn egniol wrth gael hwyl gyda'r cysyniadau.
- Technegau creu gemau i hwyluso mwynhad a chydweithrediad ymhlith dysgwyr.
- Cyfleoedd trawsgwricwlaidd i gynorthwyo dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd dysgu ac atgyfnerthu gwerth.
- Dysgu sy'n canolbwyntio ar y broses, yn hytrach na deilliannau, i annog hyder mewn dysgu archwiliol ac ymchwiliol.

## 6. Dysgu gwahaniaethol

Roedd cydnabyddiaeth o wahanol arddulliau dysgu yn nodwedd gyson o'r adborth gan athrawon. Wrth gwrs, gweithgaredd athrawon unigol yw dysgu gwahaniaethol, sy'n ystyried y dysgwyr unigryw yn eu hystafell ddosbarth, ond ein nod yw cynnig amrywiaeth o weithgareddau dysgu sy'n cynnwys:

- Gwaith cydweithredol sy'n hybu cyfraniadau unigol a dysgu gyda chyfoedion.
- Cyfathrebu llafar i hybu llythrennedd llafar.
- Cyfathrebu ysgrifenedig i hybu llythrennedd, mewn amryw o fformatau a chyd-destunau.
- Cyfathrebu gweledol o'r dysgu fel mapiau meddwl, diagramau gwe a deilliannau creadigol/artistig.

Cyflwynwyd gan:



# Canllaw i athrawon

- Tasgau ymarferol ar gyfer dysgu cinesthetig a chyd-destunol.
- Gweithgareddau corfforol ar gyfer dysgu cinesthetig.
- Tasgau archwiliol, heb ddeilliannau llwyddo/methu, i alluogi gwahanol lwybrau drwy'r dysgu.
- Tasgau rhesymu i feddylwyr rhesymegol gyfrannu at dasgau cydweithredol.

## 7. Sgiliau meddwl lefel uwch

Er mwyn hybu ymddygiadau dysgu da a sgiliau meddwl lefel uwch (meddwl yn feirniadol), mae llawer o'r gweithgareddau yn rhai archwiliol ac ymchwiliol heb ddeilliannau llwyddo/methu. Mae'r dull hwn yn **meithrin** chwilfrydedd a'i nod yw annog dysgwyr i herio eu hunain, gan fynd â'r dysgu i derfynau eu dealltwriaeth unigryw. Cyflwynir themâu a chysyniadau yng nghyd-destun bywydau teuluol bob dydd, â'r disgwyliad y bydd dysgwyr yn dechrau gwneud cysylltiadau rhwng y deunydd a archwiliwyd a'u profiadau gartref. Yn rhan o'u continwmm dysgu yn yr ysgol a'r tu allan, gallai dysgwyr ddechrau, er enghraifft, ystyried llif arian trwy gymdeithas, arferion gwario, cynilo a natur ennill arian, fel y mae'n ymwneud â'u teuluoedd.

## 8. Y Cwricwlwm i Gymru newydd

Mae cydnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru newydd wedi'u hymwreiddio drwy'r rhaglen gyfan, gan ymsefydlu'r pedwar diben a chydabod y 12 Egwyddor Addysgegol fel amcanion sylfaenol.

Cysylltwyd pob gweithgaredd â'r Meysydd Dysgu, Sgiliau Gorfodol a Sgiliau Cyfannol yn y [Trosolwg o Adnoddau](#) ac fe'i mapiodd yn erbyn y pedwar diben yn adran [Y Pedwar Diben](#).

## Strwythur y rhaglen

Mae'r rhaglen wedi'i strwythuro o amgylch themâu addysg ariannol wedi'u trefnu yn nhrefn eu cymhlethdod. Trefnir y themâu yn 3 lefel.



Lefel 1 (5-7 oed)	Lefel 2 (7-9 oed)	Lefel 3 (9-11 oed)
<b>Blynyddoedd 1 a 2</b>	<b>Blynyddoedd 3 a 4</b>	<b>Blynyddoedd 5 a 6</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Darnau arian ac arian papur</li><li>• Ennill</li><li>• Prynu</li><li>• Angen ac eisiau</li><li>• Gwerth</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Dewisiadau gwario ac ennill</li><li>• Swyddi</li><li>• Rhoddi</li><li>• Cynilo</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Economeg leol</li><li>• Gyrfaoedd</li><li>• Cofnodion ariannol</li></ul>
Menter – gwerthu nwyddau (busnes manwerthu)	Menter – busnes gwasanaeth, marchnata	Menter – marchnata, cynhyrchion, proffidioldeb

Cyflwynwyd gan:



# Canllaw i athrawon

---

Ceir nifer o adnoddau i'w defnyddio ar yr un pryd o fewn pob lefel, fel rhaglen addysg ariannol strwythuredig, neu'n unigol fel atodiad neu ysbrydoliaeth i ychwanegu gwerth at eich darpariaeth addysg ariannol bresennol.

Ar bob lefel, mae'r adnoddau yn cynnwys:

- Stori (neu straeon)
- Cynlluniau Gweithgareddau Dysgu
- Rhestr Eirfa a Gemau
- Prosiect

## Straeon

Ceir un neu fwy o straeon ar bob lefel, yn canolbwyntio ar Dylan y ddraig a'i daith i ddysgu am arian, swyddi a busnes. Gall fod yn anodd mynd i'r afael â rhai o'r cysyniadau angenrheidiol gyda dysgwyr ifanc. Mae'r straeon yn cynnig fformat i gyflwyno ac archwilio'r cysyniadau hyn. Ceir seibiannau ym mhob stori i'r athro gynnal trafodaeth neu dasg gyda'r dysgwyr i'w helpu i ddehongli'r cysyniadau hyn.

Mae Dylan y ddraig yn cynnig esiampl ar gyfer chwarae rhan weithredol mewn dysgu trwy ei natur chwilfrydig ac ymholgar. Mae'r cymeriadau eraill, a gyflwynir drwy'r straeon, yn cynnig esiampl o ymddygiadau gwario ac ennill cyfrifol, fel cynilo, ac yn cynnig straeon unigol sy'n ysbrydoli.

## Cynlluniau gweithgareddau dysgu

Mae'r cynlluniau gweithgareddau dysgu yn cynnig syniadau i ddatblygu'r cysyniadau a gyflwynwyd yn y stori, ac i archwilio'r themâu mewn cyd-destun ymarferol. Cynlluniwyd awgrymiadau'r gweithgareddau yn drylwyr gyda strwythur fesul tasg, rhestr adnoddau a chynllun paratoi. Mae hyn yn cynnig ateb parod i athrawon y gellir ei fabwysiadu os yw'n briodol.

Mae pob un o'r cynlluniau gweithgareddau dysgu yn defnyddio dull dysgu creadigol, cyd-destunol, cinesthetig a/neu gorfforol.

## Geirfa

Ar bob lefel, mae rhestr eirfa gyda diffiniadau ac enghreifftiau cyd-destunol ar gael.

Cyfes o gemau i ddysgwyr archwilio'r eirfa hon yw'r gweithgaredd olaf ond un ar bob lefel. Yn ogystal â chefnogi deilliannau llythrennedd y rhaglen, mae'r gemau hyn hefyd yn cynnig dull profi risg isel i athrawon, i ganfod dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau cyn symud ymlaen i'r prosiect.

## Prosiectau

Gorffennir pob lefel gyda phrosiect menter. Nod y prosiectau yw rhoi dealltwriaeth gyd-destunol o natur busnes, ennill arian ac egwyddorion sylfaenol economi. Darperir canllaw i'r athrawon yn unig ar y ddwy lefel gyntaf, i gynorthwyo'r gwaith o baratoi a darparu'r prosiect. Ar y drydedd lefel, mae llyfryn i'r dysgwr ar gael hefyd, er mwyn rhoi egwyddorion busnes ar sail ddeallusol a dangos eu dealltwriaeth.

---

Cyflwynwyd gan:



# Canllaw i athrawon

## Llywio'r wefan

### Categoriâu golwg gyflym

Dangosir pob un o'r gweithgareddau dysgu â disgrifiad cryno a rhai categorïau allweddol, i helpu athrawon i ddewis gweithgareddau priodol cyn lawrlwytho.

### Oedran

Rhodddwyd grŵp oedran cynghorol i bob un o'r adnoddau sy'n cysylltu â'r daith linol, gan dyfu'r wybodaeth o lefel i lefel. Fodd bynnag, gellir addasu rhai o'r gweithgareddau i weithio ar gyfer ystod oedran ehangach. Os ydych yn defnyddio rhai o'r syniadau cynlluniau gweithgareddau neu adnoddau i ategu eich darpariaeth bresennol, efallai yr hoffech archwilio gweithgareddau dysgu y tu allan i'r ystod oedran a awgrymir, i gyd-fynd â'r daith yr ydych chi wedi'i mapio ar gyfer eich dysgwyr.

### Lleoliad

Mae'r dangosydd hwn yn cynnig rhywfaint o wybodaeth am natur y lle sydd ei angen i gynnal y gweithgaredd, er enghraifft ystafell ddosbarth, yr awyr agored neu neuadd chwaraeon. Nod hyn yw helpu athrawon i gynllunio'r gweithgareddau a/neu ddewis adnoddau priodol.

### Lefelau adnoddau

Nod y dangosyddion lefel adnoddau yw rhoi awgrym cyflym i athrawon o lefel yr adnoddau a'r gwaith paratoi sy'n ofynnol ar gyfer y gweithgaredd dysgu. Mae'r canlynol yn cynnig awgrym o natur pob lefel adnoddau.

- 1 = Angen ychydig neu ddim adnoddau. Darperir unrhyw adnoddau neu mae'n hawdd cael gafael arny'n nhw.
- 2 = Darperir adnoddau, ond mae angen rhywfaint o waith paratoi, fel torri allan.
- 3 = Darperir adnoddau sydd angen ychydig mwy o waith paratoi neu mae angen adnoddau ychwanegol syml fel dis.
- 4 = Angen llawer o adnoddau, gan gynnwys rhywfaint o waith paratoi adnoddau mwy cymhleth.
- 5 = Angen llawer o adnoddau gan gynnwys y tebygrwydd y bydd angen prynu adnoddau.

### Datblygiadau yn y dyfodol

Mae gennym ni lawer o syniadau cyffrous ar gyfer dyfodol yr Hwb Athrawon ond rydym ni eisiau clywed gennych chi yn fawr iawn! Dyna pam rydym ni wedi cynnwys botymau adborth ar draws ein gwefan fel y gallwch ddweud wrthym beth yr ydych ei eisiau a'i angen yn y dyfodol.

- Pa feysydd eraill o addysg ariannol y gallem ni eich cynorthwyo â nhw?
- Sut gallem ni wella ein hadnoddau?
- A oes fformatau neu asedau eraill a fyddai'n eich helpu i ddarparu addysg ariannol yn eich ysgol?
- Sut gallem ni wella ein gwefan?
- Sut gallem ni eich cynorthwyo i ddatblygu dull dysgu cyfunol?

Edrychwch ar Sgwad Safio Dylan, ein gwefan i gynorthwyo addysg ariannol gartref, a rhannwch eich syniadau â ni i gynorthwyo dysgu teuluol yn well: <https://www.sgwadsafiodylan.co.uk/>

Cyflwynwyd gan:





# Canllaw i athrawon

## Trosolwg o adnoddau

Mapiwyd y gweithgareddau dysgu yn eu trefn isod, â throsolwg o natur a nodau pob un. Cysylltwyd pob adnodd â meysydd dysgu a sgiliau y Cwricwlwm i Gymru newydd hefyd.



### Cam 1 – Blynyddoedd 1 a 2

Gweithgaredd	Disgrifiad	Nodau'r gweithgaredd dysgu	Meysydd dysgu a sgiliau
Stori – Dylan yn dysgu am arian	Stori am Dylan y ddraig, i gyflwyno'r cysyniad sylfaenol o arian a sut y caiff ei ddefnyddio yn ein cymuned i brynu a gwerthu nwyddau.	Nod y stori yw cyflwyno cysyniadau darnau arian ac arian papur a ddefnyddir yn gyfnewid am nwyddau, sy'n cael eu datblygu yn ddiweddarach yn y gweithgareddau a'r straeon dilynol. Mae'r stori yn cynnwys seibiannau â chwestiynau i'r dosbarth i hybu dealltwriaeth ddyfnach o'r defnydd o ddarnau arian ac arian papur.	<u>Meysydd Dysgu</u> Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Mathemateg a Rhifedd Celfyddydau Mynegiannol <u>Sgiliau Gorfodol</u> Llythrennedd <u>Sgiliau Cyfannol</u> Meddwl yn feirniadol a datrys problemau Effeithiolrwydd Personol
Gemau rhedeg arian	Gemau corfforol difyr i bwysleisio gwahanol werthoedd darnau arian ac arian papur.	Nod y gweithgaredd yw helpu dysgwyr i nodi ac adnabod gwahanol ddarnau arian ac arian papur gan elwa ar weithgarwch corfforol. Mae natur y gweithgareddau yn caniatáu i ddysgwyr elwa ar hunanwerthuso eu camgymeriadau a'u llwyddiannau i ddatblygu dealltwriaeth.	<u>Meysydd Dysgu</u> Mathemateg a Rhifedd Iechyd a Lles <u>Sgiliau Gorfodol</u> Rhifedd <u>Sgiliau Cyfannol</u> Effeithiolrwydd Personol
Lliwio symbolau a digidau	Gweithgaredd lliwio i ymarfer ysgrifennu symbolau a digidau.	Trwy roi dull mwy artistig o gyflawni tasg llawysgrifen i'r dysgwyr, mae'r ymarfer llawysgrifen yn fwy difyr a defnyddiol i ddysgwyr creadigol, ac mae hefyd yn hybu ymwybyddiaeth fyfyriol.	<u>Meysydd Dysgu</u> Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Mathemateg a Rhifedd Iechyd a Lles Celfyddydau Mynegiannol <u>Sgiliau Gorfodol</u> Llythrennedd Rhifedd <u>Sgiliau Cyfannol</u> Creadigrwydd ac Arloesedd

Cyflwynwyd gan:



# Canllaw i athrawon

## Cam 1 – Blynyddoedd 1 a 2



Gweithgaredd	Disgrifiad	Nodau'r gweithgaredd dysgu	Meysydd dysgu a sgiliau
Stori – Mae angen tegan injan dân ar Dylan	Yn dilyn ymlaen o'r stori gyntaf, mae Dylan yn dysgu'r gwahaniaeth rhwng angen ac eisiau ac yn dechrau deall gwerth.	Nod y stori yw cyflwyno cysyniadau a ddatblygir yn y gweithgareddau dilynol. Mae'r stori'n cynnwys seibiannau â chwestiynau dosbarth i hybu dealltwriaeth fwy trylwyr a meddwl yn feirniadol o ran gwerth, angen ac eisiau. Gofynnir i'r dysgwyr fyfyrar hapusrwydd fel rhywbeth y maen nhw ei 'angen' a sut y gellir ei sicrhau.	<u>Meysydd Dysgu</u> Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Mathemateg a Rhifedd Iechyd a Lles <u>Sgiliau Gorfodol</u> Llythrennedd Rhifedd <u>Sgiliau Cyfannol</u> Meddwl yn feirniadol a datrys problemau Effeithiolrwydd Personol
Bingo gwerth	Gweithgaredd gêm syml lle mae dysgwyr yn dewis eitemau i'w prynu gyda chyllideb o £10, gan sicrhau eu bod yn prynu'r holl eitemau sydd eu hangen arnyh nhw.	Mae'r gweithgaredd hwn yn caniatáu i'r dysgwyr archwilio'r gwahaniaeth rhwng y pethau y maen nhw eu hangen a'r pethau y maen nhw eu heisiau yn ogystal ag ystyried gwerthoedd bras. Mae trafodaeth ddosbarth yn cloi'r gweithgaredd i annog meddwl yn feirniadol.	<u>Meysydd Dysgu</u> Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Mathemateg a Rhifedd <u>Sgiliau Gorfodol</u> Llythrennedd Rhifedd <u>Sgiliau Cyfannol</u> Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
Stori – Dylan yn cael swydd	Yn dilyn ymlaen o'r ddwy stori flaenorol am daith Dylan i ddysgu am arian, mae Dylan yn archwilio ennill arian a sgiliau, ac yn cael swydd.	Mae'r stori yn cyflwyno ennill arian, sgiliau a swyddi â seibiannau ar gyfer trafodaeth dosbarth. Gofynnir i'r dysgwyr fyfyrar eu sgiliau, a swyddi a allai fod o ddiddordeb iddyn nhw yn y dyfodol. Ceir cyfle hefyd am drafodaeth anffurfiol ynglŷn â moeseg arian mewn perthynas bersonol.	<u>Meysydd Dysgu</u> Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Iechyd a Lles <u>Sgiliau Gorfodol</u> Llythrennedd <u>Sgiliau Cyfannol</u> Meddwl yn feirniadol a datrys problemau Effeithiolrwydd Personol

Cyflwynwyd gan:



# Canllaw i athrawon

## Cam 1 – Blynyddoedd 1 a 2



Gweithgaredd	Disgrifiad	Nodau'r gweithgaredd dysgu	Meysydd dysgu a sgiliau
Gemau prynu a gwerthu	Tair gêm gorfforol â phêl i atgyfnerthu geirfa a themâu prynu, gwerthu ac ennill arian.	<p>Her yw'r gweithgaredd cyntaf sydd â'r nod o hwyluso'r cyfathrebu, y negodi a'r cydweithredu sydd eu hangen i lwyddo. Mae'r dasg hefyd yn gofyn am feddwl yn rhesymegol a dysgu drwy arbrofi.</p> <p>Mae'r ail weithgaredd yn cynorthwyo'r dysgwyr i ymarfer yr eirfa a'u sgiliau cyfathrebu.</p> <p>Mae'r trydydd gweithgaredd yn dangos llif arian trwy gymdeithas ar ffurf ras rwystrau.</p> <p>Mae'r holl weithgareddau yn hybu gweithgarwch corfforol gan gynnwys cydbwysedd a chydymudiad llaw a llygaid.</p>	<p><u>Meysydd Dysgu</u> Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Mathemateg a Rhifedd Iechyd a Lles</p> <p><u>Sgiliau Gorfodol</u> Llythrennedd Rhifedd</p> <p><u>Sgiliau Cyfannol</u> Meddwl yn feirniadol a datrys problemau Effeithiolrwydd Personol Cynllunio a Threfnu</p>
Gemau geirfa	Gemau darllen a deall syml i'w chwarae gyda'r eirfa a drafodir ar y lefel hon.	Modd o gynnal asesiad risg isel a chyfle i ddysgwyr chwarae gyda chysyniadau'r eirfa. Nod fformat gwaith pâr ar ffurf gêm yr asesiad yw caniatáu i ddysgwyr werthuso eu dysgu a'u camgymeriadau eu hunain wrth iddyn nhw ailadrodd drwy'r geiriau.	<p><u>Meysydd Dysgu</u> Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu</p> <p><u>Sgiliau Gorfodol</u> Llythrennedd</p> <p><u>Sgiliau Cyfannol</u> Meddwl yn feirniadol a datrys problemau Effeithiolrwydd Personol</p>
Prosiect cardiau cyfarch	Prosiect menter syml, sy'n creu cardiau rhodd i'w gwerthu.	Nod y prosiect yw ysbrydoli'r dysgwyr â chyd-destun ymarferol ar gyfer creu a gwerthu cynnyrch. Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi profiad cyd-destunol o brynu a gwerthu i'r dysgwyr.	<p><u>Meysydd Dysgu</u> Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Mathemateg a Rhifedd Celfyddydau Mynegiannol Dyniaethau</p> <p><u>Sgiliau Gorfodol</u> Llythrennedd Rhifedd</p> <p><u>Sgiliau Cyfannol</u> Creadigrwydd ac Arloesedd</p>

Cyflwynwyd gan:



# Canllaw i athrawon

## Cam 2 – Blynyddoedd 3 a 4



Gweithgaredd	Disgrifiad	Nodau'r gweithgaredd dysgu	Meysydd dysgu a sgiliau
Stori – Dylan yn dysgu i helpu a chynilo	Mae'r stori hon yn parhau â thaith Dylan y ddraig i ddysgu popeth am arian. Gall darllenwyr ddechrau'r stori yn y bennod hon, lle mae Dylan yn dechrau dysgu am ddewisiadau gwario cyfrifol, a chynilo a rhoddi yn bennaf.	Mae Dylan yn cynnig esiampl o ymddygiadau dysgu da ac mae ei ffrind Rhiannon yn cynnig esiampl o agweddau cyfrifol at arian.  Gofynnir i'r dysgwyr drafod a gwerthuso'r syniadau o gynilo ac elusen.	<u>Meysydd Dysgu</u> Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Iechyd a Lles  <u>Sgiliau Gorfodol</u> Llythrennedd  <u>Sgiliau Cyfannol</u> Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
Cynllun cynilion dosbarth	Mae'r dysgwyr yn cydweithio i ennill pwyntiau i gael gwobrau. Caiff eu cynnydd ei fesur a'i ddangos, a cheir cyfleoedd o dro i dro i ddefnyddio eu pwyntiau i gael gwobr. Mae gwerth y gwobrau yn cynyddu wrth i bwyntiau gael eu casglu.	Mae'r cynllun yn annog dysgwyr i archwilio gwerth cynilo, a cheir cyfleoedd ychwanegol i archwilio cydweithredu, negodi, oedi plaser a democratiaeth. Lluniwyd y siart pwyntiau fel siart rhif, i gefnogi rhifedd mewn fformat gweledol a chyd-destunol.	<u>Meysydd Dysgu</u> Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Mathemateg a Rhifedd Iechyd a Lles  <u>Sgiliau Gorfodol</u> Rhifedd  <u>Sgiliau Cyfannol</u> Effeithiolrwydd Personol Cynllunio a Threfnu
Enillwyr damcaniaethol	Tasg meddwl yn feirniadol, lle mae'r dysgwyr yn cydweithio i benderfynu sut i wario £1,000 damcaniaethol.	Nod y gweithgaredd yw hybu meddwl yn feirniadol am wario'n ddoeth ac yn gyfrifol, hybu cydweithio a chydweithrediad a chynnig cyfle i archwilio sgiliau cyflwyno anffurfiol. Hefyd, defnyddio rhifau mwy mewn lluosrifau o 10 a 100 ac ymhelaethu ar syniadau o werth.	<u>Meysydd Dysgu</u> Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Mathemateg a Rhifedd  <u>Sgiliau Gorfodol</u> Llythrennedd Rhifedd  <u>Sgiliau Cyfannol</u> Meddwl yn feirniadol a datrys problemau Effeithiolrwydd Personol

Cyflwynwyd gan:



# Canllaw i athrawon

## Cam 2 – Blynyddoedd 3 a 4



Gweithgaredd	Disgrifiad	Nodau'r gweithgaredd dysgu	Meysydd dysgu a sgiliau
Gwisgo ar gyfer y swydd	Tasg ymchwilio a chyflwyno ag elfen ddifyr; mae'r dysgwyr yn creu cyfwisgoedd a/neu wisgoedd ar gyfer eu dewis o swydd.	Nod y gweithgaredd yw ysbrydoli dysgwyr trwy gyflwyno'r amrywiaeth o swyddi diddorol y gallent eu hystyried yn y dyfodol. Trwy ddefnyddio sgiliau ymchwilio, digidol a chyflwyno, mae'r dysgwyr yn ymchwilio i'w dewis o swydd ac yn rhannu â'r dosbarth.	<p><u>Meysydd Dysgu</u> Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Celfyddydau Mynegiannol</p> <p><u>Sgiliau Gorfodol</u> Llythrennedd Cymhwysedd Digidol</p> <p><u>Sgiliau Cyfannol</u> Meddwl yn feirniadol a datrys problemau Effeithiolrwydd Personol</p>
Diogelu'r wy	Tasg grŵp, lle mae'n rhaid i'r dysgwyr ddylunio ac adeiladu ffordd o ddiogelu dau wy cyn eu taflu ar y maes chwarae. Mae'n rhaid i'r dysgwyr brynu'r eitemau i'w defnyddio yn eu dyluniad, gan geisio gwario cyn lleied o arian â phosibl i ddiogelu'r wyau yn llwyddiannus.	Mae'n rhaid i'r dysgwyr gydweithio a chyfathrebu'n effeithiol gan archwilio cyllidebu a datrys problemau. Deilliannau gwyddoniaeth a thechnoleg ychwanegol trwy ddylunio eu hateb ac ystyried grymoedd fel trawiad a disgyrchiant. Gall y dysgwyr hefyd addurno eu hatebion yn artistig, i roi hunaniaeth tîm i'w hateb. Gellir defnyddio cardiau myfyrio personol i'r dysgwyr werthuso eu hatebion a'u swyddogaeth o fewn y tîm.	<p><u>Meysydd Dysgu</u> Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Mathemateg a Rhifedd Gwyddoniaeth a Thechnoleg Y Dyniaethau Celfyddydau Mynegiannol</p> <p><u>Sgiliau Gorfodol</u> Llythrennedd Rhifedd</p> <p><u>Sgiliau Cyfannol</u> Creadigrwydd ac Arloesedd Meddwl yn feirniadol a datrys problemau Effeithiolrwydd Personol Cynllunio a Threfnu</p>
Fy nghartref	Rhoddir cynlluniau syml ar gyfer byngalo i'r dysgwyr a gofynnir iddyn nhw neilltuo ystafelloedd a gosod dodrefn ar sail golwg oddi uchod. Yna gallan nhw chwarae gêm ddis syml gyda'u cynlluniau.	Mae'r gweithgaredd hwn yn atgyfnerthu pwysigrwydd cynilo fel ffordd o ddatblygu annibyniaeth a chyfrifoldeb yn y cartref yn ddiweddarach. Mae'r gweithgaredd hefyd yn caniatáu i'r dysgwyr archwilio gwahanol ddulliau o dynnu llun, gan gyflwyno golwg oddi uchod, graddfeydd a chynlluniau yn ogystal â defnyddio sgiliau rhesymu haniaethol. Ceir deilliannau rhifedd ychwanegol trwy'r gêm ddis.	<p><u>Meysydd Dysgu</u> Mathemateg a Rhifedd Gwyddoniaeth a Thechnoleg</p> <p><u>Sgiliau Gorfodol</u> Rhifedd</p> <p><u>Sgiliau Cyfannol</u> Meddwl yn feirniadol a datrys problemau</p>

Cyflwynwyd gan:



# Canllaw i athrawon

## Cam 2 – Blynyddoedd 3 a 4



Gweithgaredd	Disgrifiad	Nodau'r gweithgaredd dysgu	Meysydd dysgu a sgiliau
Poster elusen	Ar ôl rhywfaint o waith ymchwil i elusen benodol, gofynnir i'r dysgwyr lunio poster, i annog pobl i gefnogi'r elusen. Gellir datblygu'r gweithgaredd gyda thaith i ddeall swyddogaeth elusennau yn y gymuned leol yn well.	Nod y dasg yw archwilio gwerth elusennau a'r rhan maen nhw'n ei chwarae mewn cymdeithas, yn ogystal â datblygu dealltwriaeth o farchnata. Gall y dysgwyr ddadansoddi a thrafod effaith marchnata a'i oblygiadau moesegol, gan ddysgu hanfodion penderfyniadau marchnata. Gall y dysgwyr hefyd ddefnyddio sgiliau ymchwilio, cyfathrebu a chyflwyno.	<u>Meysydd Dysgu</u> Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Celfyddydau Mynegiannol Y Dyniaethau  <u>Sgiliau Gorfodol</u> Llythrennedd Cymhwysedd Digidol  <u>Sgiliau Cyfannol</u> Creadigrwydd ac Arloesedd Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
Gemau geirfa	Cyfres o gemau i atgyfnerthu'r eirfa a drafodwyd drwy'r lefel.	Mae'r gemau yn hybu cyfathrebu llafar effeithiol, sillafu a darllen, mewn fformat difyr y gellir ei fwynhau, gan atgyfnerthu'r eirfa a'r cysyniadau a chynnig cyfle ar gyfer asesiad risg isel. Mae'r enghreifftiau a gynigir yn rhoi ysbrydoliaeth entrepreneuriaidd ac esiampl o ymddygiadau cyfrifol o ran arian.	<u>Meysydd Dysgu</u> Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Y Dyniaethau  <u>Sgiliau Gorfodol</u> Llythrennedd  <u>Sgiliau Cyfannol</u> Meddwl yn feirniadol a datrys problemau Effeithiolrwydd Personol
Prosiect comisiynau artist	Mae dysgwyr yn derbyn comisiynau ar gyfer portreadau mewn man/lleoliad priodol, ar ôl gwneud gwaith ymchwil ac astudio ar swydd artist a gwneud penderfyniadau am sut i hyrwyddo eu comisiynau/gwasanaeth.	Mae'r dysgwyr yn cael profiad o fusnes gwasanaeth ac yn sylweddoli bod ganddyn nhw sgiliau y gellir eu marchnata. Nod y prosiect yw ysbrydoli'r dysgwyr i ystyried y cyfleoedd a allai fod ar gael iddyn nhw yn y dyfodol a gwobrwyon arloesedd a mentergarwch. Mae hanfodion busnes e.e. cynnyrch, marchnata a chwsmeriaid yn cynnig cyd-destun i ymhelaethu arno ar y lefel nesaf.	<u>Meysydd Dysgu</u> Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Y Dyniaethau Celfyddydau Mynegiannol  <u>Sgiliau Gorfodol</u> Llythrennedd  <u>Sgiliau Cyfannol</u> Creadigrwydd ac Arloesedd Effeithiolrwydd Personol Cynllunio a Threfnu

Cyflwynwyd gan:



# Canllaw i athrawon

## Cam 3 – Blynyddoedd 5 a 6



Gweithgaredd	Disgrifiad	Nodau'r gweithgaredd dysgu	Meysydd dysgu a sgiliau
